**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Medi 2012**

**Y PWYLLGOR MATERION CENEDLAETHOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

## Cefndir

2 Ym mis Rhagfyr 2011 rhoddodd Aelodau'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ystyriaeth i adroddiad ar y cyd gan y Prif Swyddogion Tân a oedd yn amlinellu nifer o opsiynau strategaethol arfaethedig mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu a strwythurol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol. Yn y cyfarfod hwnnw, fe awgrymodd yr Aelodau pa fodel yr oeddent yn ei ffafrio a phenderfynwyd bod angen trafodaeth, gwaith ymchwil a dadansoddiad pellach ynghylch sefydlu Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC) ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

## Gwybodaeth

3 Cafodd cylch gorchwyl y PMC ei gymeradwyo gan y tri Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mawrth 2012 a'i nodau yw datblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer cyflwyno gwaith strategol a chydlynedig ar y cyd.

4 Mae aelodau'r PMC yn cynnwys y Prif Swyddogion Tân, y Dirprwy Brif Swyddogion Tân a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

5 Cafodd y PMC ei sefydlu ar sail wirfoddol, anffurfiol ac nid drwy amrywiad yn y Gorchymyn Cyfunol, nac ychwaith o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol. At hynny, o ystyried ein bod yn cadw at y fodel o dri Awdurdod sydd gan bwerau a threfniadau rheoli cysylltiedig, nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol.

6 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y PMC ar 17eg Gorffennaf 2012 a chafodd y Cynghorydd Tudor Davies, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ei benodi'n Gadeirydd i'r pwyllgor a phenodwyd y Cynghorydd Morris Jones a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn is-gadeiryddion. Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys penodi aelodau a swyddogion arweiniol a fyddai'n bwrw ymlaen gyda'r rhaglen waith. At hyn, fe gyflwynwyd papur a oedd yn amlinellu'r siarter ymateb i danau mewn anheddau ar gyfer Cymru gyfan sydd yn yr arfaeth.

7 Sefydlwyd gweithgorau a fydd yn cael eu harwain gan uwch swyddogion er mwyn adolygu pob agwedd o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn y cyfarfod nesaf ar 25ain Medi byddwn yn awgrymu cynnal archwiliad strategol i'r gwasanaethau gweithredol sy'n cael eu cyflenwi a chydnerthedd ar hyd a lled Cymru, fel rhan o'r ffrwd gwaith "Trefniadau Cydnerthu Effeithiol ar gyfer Argyfyngau Mawr". Bydd rhagor o waith yn cael ei gwblhau ar y "Trefniadau Rheoli Cenedlaethol" sydd wedi eu sefydlu eisoes. Mae'r timau prosiect wrthi'n casglu data ar hyn o bryd ar gyfer meysydd cydweithio allweddol yn cynnwys Caffael, Hyfforddiant a Datblygiad, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cyffredin ac Arbenigol. Bydd ffrwd gwaith y Gwasanaethau Cyffredin ac Arbenigol yn edrych ar ystod eang o swyddogaethau yn cynnwys Rheolaeth Ariannol, TGCh a Thrafnidiaeth fel y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a sicrhau arbedion ariannol ar draws y tri Gwasanaeth.

8 Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol lle bydd gofyn i'r Aelodau gymeradwyo argymhellion y PMC.

**Argymhelliad**

9 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.